Adroddiad i'r	Pwyllgor Safonau
Dyddiad y cyfarfod	16 Mehefin 2023
Swyddog / Aelod Arweiniol	Gary Williams, Swyddog Monitro
Awdur yr adroddiad	Lisa Jones, Pennaeth Dros Dro y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd
Teitl	Ymgynghori ynghylch Adolygiad Penn

1. Am beth mae'r adroddiad yn sôn?

Mae a wnelo'r adroddiad hwn ag adolygiad Llywodraeth Cymru o'r Fframwaith Moesegol yng Nghymru.

2. Beth yw'r rheswm dros lunio'r adroddiad hwn?

Hysbysu'r Pwyllgor Safonau o ymateb y Cyngor i'r ymgynghoriad.

3. Beth yw'r Argymhellion?

3.1 Bod yr aelodau'n rhoi sêl bendith ar gyflwyno'r ymateb.

4. Manylion yr adroddiad

4.1 Mae'r Pwyllgor wedi cael yr holl wybodaeth ddiweddaraf ynglŷn ag adolygu'r Fframwaith Moesegol yng Nghymru – dechreuodd 'Adolygiad Penn' yn 2021 ar ôl ugain mlynedd heb fawr ddim newid yn y fframwaith. Bydd Aelodau'n cofio'r adroddiadau blaenorol yn sôn bod cam cychwynnol yr adolygiad wedi canfod bod y fframwaith yn addas at y diben, ond y gallai fod yn fuddiol diwygio rhai meysydd yn y dyfodol.

4.2. Derbyniodd y Pwyllgor Safonau gyflwyniad yn ei gyfarfod diwethaf fel y gallai'r aelodau leisio'u barn ynglŷn â chwestiynau'r ymgynghoriad. Ymgynghorir â'r Arweinwyr Grŵp yn y cyfamser rhwng llunio'r adroddiad hwn a'i gyflwyno yng nghyfarfod y Pwyllgor,

gan fod amser yn brin cyn y mae'n rhaid ymateb. Rhennir safbwyntiau'r Arweinwyr Grŵp â'r Pwyllgor yn y cyfarfod.

4.3 Gweler yr ymateb yn Atodiad 1.

5. Sut mae'r penderfyniad yn cyfrannu at y Blaenoriaethau Corfforaethol?

Nid yw'r adroddiad yn cael effaith uniongyrchol ar flaenoriaethau corfforaethol.

6. Faint fydd hyn yn ei gostio a sut y bydd yn effeithio ar wasanaethau eraill?

Nid oes unrhyw gostau ychwanegol.

7. Beth yw prif gasgliadau'r Asesiad o Effaith ar Les?

Nid yw'n ofynnol asesu'r effaith ar les.

8. Pa ymgynghoriadau sydd wedi'u cynnal gyda Chraffu ac eraill?

Ymgynghorir â'r Pwyllgor Safonau a'r Arweinwyr Grŵp cyn cyflwyno'r ymateb.

9. Datganiad y Prif Swyddog Cyllid

Nid oes gofyn am un.

10. Pa risgiau sydd ac a oes unrhyw beth y gallwn ei wneud i'w lleihau?

Nid oes unrhyw risg wedi'i nodi.

11. Pŵer i wneud y penderfyniad

Deddf Llywodraeth Leol 2000.